YSGOL BRYNREFAIL

SNOWDON ROCKS 2015

Fe fu Mike Peters ‘Alarm’ yn Ysgol Brynrefail yn rhedeg gweithdai gyda grŵp bechgyn B10 (‘Yr Ymylon’) a chôr yr ysgol - wrth baratoi ar gyfer perfformio yn ‘Snowdon Rocks’ yn Llanberis ar ddydd Sadwrn, 20fed Mehefin - gweithgaredd codi arian at elusen cancr Gogledd Cymru.

Mae cerddwyr araf a chyflym, hen ac ifanc yn ymuno yn y daith gerdded i fyny'r Wyddfa a bod yn rhan o'r cyd ganu ar yr ochr mynydd.

Yng ngeirau Mike Peters :-

"Mae fy nheulu a ffrindiau wedi sefydlu Snowdon Rocks am ein bod am ddiolch i'r holl bobl sydd wedi bod wrth fy ochr. Yn ystod y saith mlynedd diwethaf ffrindiau, gan gynnwys staff gofal iechyd a chleifion eraill, a'r teulu sydd wedi ymuno a fi i gerdded a chanu tuag at gopa'r Wyddfa. Rydym yn dod at ei gilydd i ganu ar yr ochr mynydd, ac yn codi arian ar gyfer gwasanaethau canser yn lleol. Rydym wedi creu gŵyl fach ond fythgofiadwy o gerddoriaeth, diolch, dathlu a chofio. Yn ymuno eleni cerddorion gwadd arbennig ac enwogion gan gynnwys Derek Brockway y 'Weatherman Walking ' poblogaidd a cyn pêl-droediwr Cynghrair y Pencampwyr , David May.